**Y Pwyllgor Busnes**
—
**Business Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1SN
SeneddBusnes@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddBusnes
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff CF99 1SN
SeneddBusiness@senedd.wales
Senedd.wales/SeneddBusiness
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

22 Mawrth 2023

**Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) a Dyddiadau Toriad y Senedd**

Annwyl Huw,

Yn dilyn ein llythyr ar 10 Mawrth, rhoddodd y Pwyllgor Busnes ragor o ystyriaeth i *Argymhelliad 14* o'ch adroddiad ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) wrth gadarnhau dyddiadau toriad ar gyfer tymor yr hydref, gan gynnwys toriad Nadolig 2023, yn ein cyfarfod ar 21 Mawrth.

Rydym yn cydnabod bod angen cadw effaith y Bil ar amser y Senedd, ar gyfer pwyllgorau a'r Cyfarfod Llawn, dan ystyriaeth fanwl. Fodd bynnag, o ystyried yr angen i gadarnhau dyddiadau tymor yr hydref mewn modd amserol er mwyn rhoi eglurder i bwyllgorau'r Senedd ac eraill, a'r ffaith nad yw ffurf derfynol y Bil na sut y byddai Llywodraeth Cymru yn ymateb i'w darpariaethau'n hysbys eto, gwnaethom benderfynu peidio â gwneud newidiadau i'r trefniadau ar gyfer toriad Nadolig 2023 ar hyn o bryd.

Cytunodd y Pwyllgor y byddem yn ystyried ailedrych ar y mater hwn, a mesurau posibl eraill, yn ddiweddarach yn y flwyddyn pe bai angen, pan fydd darpariaethau terfynol y Bil a'r effaith ar y Senedd yn hysbys.

Cofion cynnes,

**Y Gwir Anrh. Elin Jones AS**

Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.